Datganiad i'r Wasg: Embargo llym – Dydd Mawrth 5ed o Ragfyr 2023

Cymru yn Wynebu Argyfwng Gwirfoddolwyr

Heddiw mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) wedi datgan bod Cymru yn wynebu argyfwng gwirfoddolwyr.

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol Gwirfoddoli, mae Prif Weithredwr CGGC wedi datgan bod y sector wirfoddol yng Nghymru dan bwysau enbyd, gyda 90% o gynrychiolwyr o fudiadau gwirfoddol o bob cwr o'r wlad yn nodi eu bod yn cael trafferthion recriwtio gwirfoddolwyr.

'Mae'r cyfuniad o'r pandemig byd-eang a'r argyfwng costau byw wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n gwirfoddoli yng Nghymru.' Meddai Ruth Marks, Prif Weithredwr CGGC.

'Dyw rhai pobl heb ddychwelyd ers y pandemig, eraill wedi colli eu hyder. Mae'r argyfwng economaidd hefyd yn golygu bod pobl yn gorfod blaenoriaethu gweithgareddau eraill.

'Mae'n golygu bod elusennau a grwpiau gwirfoddol ledled Cymru yn ei chael hi'n anodd iawn, ond mae pobl yn colli allan ar fuddion gwirfoddoli hefyd. Mae tystiolaeth yn dangos bod gwirfoddoli yn lleihau unigrwydd, yn gwella iechyd meddwl ac yn helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd.'

Mae arolwg diweddar gan y CGGC yn dangos bod 90% o gynrychiolwyr o fudiadau gwirfoddol yn cael trafferth recriwtio. Roedd dros 80% hefyd yn dweud eu bod yn cael trafferth cadw gwirfoddolwyr. Y prif rwystr a nodwyd ar gyfer gwirfoddolwyr newydd oedd diffyg amser, ac yn dilyn hynny diffyg ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael.

Mae Mally Roberts yn gwirfoddoli ers pum mlynedd gyda Blind Veterans UK yn Llandudno, elusen sydd yn cynnig cefnogaeth i unrhyw un sydd wedi bod yn y fyddin ac wedi colli eu golwg.

'Dwi'n gwneud dau beth yma, dwi'n helpu aelodau i setlo yma a mynd o gwmpas y lle, ac yn eu helpu nhw i fynd allan am dripiau a ballu. A'r peth arall dwi'n ei wneud ydi tynnu lluniau gan fy mod yn gwneud gradd mewn ffotograffiaeth.'

Un o Gapel Garmon ydi Mally, ac wedi iddo ymddeol yn dilyn 23 mlynedd gyda'r heddlu a naw mlynedd gyda'r Llu Awyr Brenhinol, roedd yn awyddus i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

'Dwi'n cael mwynhad mawr o helpu yma. Maen nhw'n bobl wych, yn cwyno dim! Does 'na neb ohona ni yn gwybod be sy rownd y gornel. Dim ond 57 ydw i, ond

pwy a ŵyr, ella mewn blynyddoedd y bydda i angen help rywun, ond ar hyn o bryd mi fedra i helpu rhywun arall, ac mae hynna mor bwysig i fi.'

Mae Samiya Houston o Dorfaen yn 21 oed a hefyd yn gwirfoddoli yn ei chymuned gyda Sight Cymru. 'Ges i fy ngeni gyda nam golwg felly'r rheswm nes i gysylltu gyda Sight Cymru i ddechrau oedd fel defnyddiwr gwasanaeth, gan fy mod eisiau cymorth ganddynt i fynd o gwmpas yn annibynnol, gan ddal y bws a'r trên ar ben fy hun. Ar ôl i mi gael cymorth ganddynt, dyma benderfynu gwirfoddoli efo nhw.'

Yn rhan o'i gwaith gwirfoddoli, mae Samiya yn ymweld â mudiadau a busnesau lleol i roi hyfforddiant ymwybyddiaeth colli golwg, a chyflwyno datrysiadau i rai o'r rhwystrau allai pobl eu hwynebu yn y busnesau hynny. Mae hefyd yn ymweld ag ysgolion cynradd i sgwrsio gyda phlant am ffyrdd o geisio atal colli golwg.

'Mae gwirfoddoli yn gwneud i mi deimlo mor, mor dda,' meddai Samiya, a enillodd Wobr Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn yn Nhorfaen eleni. 'Mae'n rhoi teimlad cynnes i mi tu mewn o wybod mod i'n gallu mynd allan a rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, a chodi ymwybyddiaeth am golli golwg. Mi fyddwn i bendant yn argymell gwirfoddoli i bobl ifanc eraill; mae'n ffordd dda o fagu hyder, a datblygu nifer o sgiliau eraill hefyd fel gwasanaeth cwsmer a chyfathrebu. Hefyd, mae'n beth gwych i roi ar eich C.V!'

Yn ôl Prif Weithredwr CGGC Ruth Marks, dylai unrhyw un sydd â diddordeb gwirfoddoli edrych ar wefan Gwirfoddoli Cymru, sydd ar ei newydd-wedd.

'Mae 19 o gynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru, ac rydym wedi cydweithio i wneud platfform Gwirfoddoli Cymru mor hawdd i'w ddefnyddio â phosib. Os oes gennych ddiddordeb gwirfoddoli gallwch gofrestru ar y wefan am ddim, a dechrau chwilio am gyfle fydd yn gweddu i'ch diddordebau.

'Mae elusennau a mudiadau hefyd yn gallu cofrestru ar y wefan am ddim, gan restru eu cyfleoedd gwirfoddoli, felly mae'n hawdd iawn darganfod cyfleoedd gwirfoddoli yn eich ardal leol. Wrth gwrs, gallwch chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli trwy'r Gymraeg hefyd. Ewch draw i https://volunteering-wales.net/cy i weld os oes cyfle yno i chi.'

DIWEDD

Nodiadau i'r Golygyddion

- CGGC yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru

- Data dros dro gan arolwg CGGC ym mis Tachwedd 2023 gan 142 o gynrychiolwyr o sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru, data amrwd terfynol ar gael ar gais o 1 Rhagfyr dan embargo

- Gwefan Gwirfoddoli Cymru: https://volunteering-wales.net/cy

- Am luniau o'r bobl yn yr erthygl neu i drefnu cyfweliadau cysylltwch â Casia Wiliam ar 07973612966 / casiawiliam@live.co.uk

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales